**CYFARFOD** hybrid **Y CYNGOR,** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 15fed Mehefin 2022, gan gychwyn am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs J. Butterfield YH MBE,
Mrs E. M. Chard, Mrs J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones,
Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, A. J. Rutherford,
D. Simmons, A. Walker a Mrs M. Walker.

**13. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorwyr Mrs. J. Chamberlain-Jones, Ms J. McAlpine, B. Mellor, Miss C. L. Williams a chan y Dirprwy Glerc Miss H. J. Windus.

**14. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnod cywir:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfod Blynyddol y Cyngor | - | 18fed Mai 2022 | - | Rhifau Cofnod | 1- 12 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd A. James ac fe ***BENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynllunio | - | 1af Mehefin 2022 | - | Rhifau Cofnod | 1- 5 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Simmons ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Blakeley fe ***BENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol | - | 1af Mehefin 2022 | - | Rhifau Cofnod | 1- 18 |

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac fe ***BENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir, a'u cadarnhau gyfer gweithredu.*

**15. ADRODDIAD Y MAER**

Cyfeiriodd y Maer at ddigwyddiadau a fynychwyd ganddi ar ran y Cyngor dros y mis diwethaf, a chyfeiriodd yn arbennig at oleuo Ffagl Jiwbili y Frenhines yn Arena Ddigwyddiadau'r Rhyl, gan fynegi diolch i'w chyd-aelodau a'i Chymar am eu cefnogaeth yn y digwyddiad ar dywydd gwael.

## 16. CYFLWYNIAD: CYMDEITHAS DAI CLWYD ALYN – MENTER WELL-FED

Ymhellach i gofnod rhif 125 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Mawrth 222, coresawodd y Maer Mr Paul McGrady a Mr Robbie Davison o Gymdeithas Dai Clwyd Alyn i'r cyfarfod a'u gwahodd i roi cyflwyniad ar y fenter Well-fed.

Hysbysodd y swyddogion y cyfarfod am y fenter gan ddweud:

- Bod y fenter wedi ei sefydlu gyda'r nod  geisio opsiwn amgen i fanciau bwyd drwy ddarparu bwyd ffres i aelwydydd.

- Ystadegau yn ymwneud â'r galw am y gwasanaeth gan nodi:

    - bod 23% o bobl ar hyn o bryd yn colli pryd bwyd ac y rhagwelir y bydd hyn yn codi 10% yn y misoedd i ddod
    - bod 8 o bob 10 o bobl nad ydynt yn defnyddio banciau bwyd
    - nid yw 60% o aelwydydd byth yn coginio pryd bwyd gartref o gynhwysion sylfaenol
    - i 25% o blant, yr unig lysiau oedd ffa pob

- Eu nod oedd cael bwyd da i bobl beth bynnag eu lefel incwm.

- mai'r gwasanaeth yn wreiddiol oedd darparu bwyd yn cynnwys cynnyrch ffres i aelwydydd am 12 wythnos gyda phob pecyn werth £36.

- ar ôl y bedair wythnos gyntaf, gofynnir i aelwydydd dalu £10 yr wythns ac ar ôl wyth wythnos, £15 fesul pecyn.

- bod pob parsel bwyd wedi ei ddylunio i fwydo teulu am bedwar neu bump diwrnod ac yn gweithio allan ar ryw £4 fesul pryd fesul teulu.

- Bod y prydau yn dod gydag amrywiaeth o bowdrau bwyd wedi eu paratoi gan eu cogyddion.

- bod y gwasanaeth hefyd yn rhedeg dwy siop symudol i fynd i ardaloedd lle roedd yn anodd cael cynnyrch ffres, megis stadau tai mawr ac ardaloedd gwledig lle nad oedd siopau addas, gyda phrydau bwyd ar gael am £2 yr un.

- bod yr elw o'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i sybsideiddio prydau.

- yn wahanol i fanciau bwyd, roedd yr holl fwyd yn ffres a heb gyrraedd y dyddiad gorffen.

- eu bod wastad yn chwilio am fentrau a phartneriaethau newydd.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau, atebwyd:

- eu bod yn rhoi hyfforddiant i bobl ar ddefnyddio ffyrnau araf a meicrodonau ac yn gallu rhoir cyfarpar hwnnw i bobl nad oedd ganddynt un, gan ddweud bod rhyw 16,500 o bobol wedi cael hyfforddiant.

- eu bod wastad yn profi eu prydau yn y farchnad ac wedi cael adborth hyd yma gan 11,000 o bobl.

- y byddai eu manylion cyswllt yn cael eu rhoi i Glerc y Dref ar gyfer yr holl aelodau.
- cytunwyd bod bwydo plant yn ystod gwyliau'r haf yn broblem a oedd yn cyfrannu at dlodi plant.

- eu bod yn siarad gyda Chynghorau Gogledd Cymru, ac

  - yn Sir Ddinbych wedi cynnal trafodaethau gyda Liz Greeves
  - yn gweithio gyda Phartneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych
  - wedi derbyn cyllid gan y gronfa Ffyniant Bro drwy Gyngor Sir y Fflint

- Y byddai cefnogaeth wleidyddol yn eu cynorthwyo i ddatblygu'r gwasanaethau.

- eu bod yn cael cymorth ariannol gan Glwyd Alyn.

- y byddai pris llawn y pecyn wythnosol yn £43 am bump diwrnod, pan roedd nifer o bobl yn talu ond bod hyn yn derbyn sybsidi wedyn fel y bo angen.

Ar ddiwedd y cyflwyniad, diolchodd y maer i'r ddau swyddog ar ran y Cyngor.

Cyn gadael, gadawodd y swyddogion gardiau pryd bwyd enghreifftiol a phowdrau blas i'r aeloidau roi cynnig arnynt.

**[Ar y pwynt hwn, gadawodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield y cyfarfod i fynychu cyfarfod arall]**

## 17. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017, ac yn unol â rheoliadau ariannol y cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau an-rheolaidd i'w rhyddhau dros y mis i ddod) a manylion un cyflenwr ychwanegol i'r rhestr o gyflwynwyr ar ôl cymeradwyaeth gan yr aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r canlynol i'w talu a'i lofnodi gan ddau gynghorydd maes o law.*

| Cyflenwr | Manylion | Rhif Taleb | Swm £ |
|---|---|---|---|
| Lleng Brydeinig Frenhinol | Torch (Falklands) | 1417 | 18.50 |
| James Hallam | Premiwm Yswiriant Cyfunol Aviva 2022/23 | 1424 | 4,853.38 |
| James Hallam | Premiwm Damwaih a Theithio Aviva 2022/23 | 1425 | 437.66 |
| James Hallam | British Engineering – Archwilio | 1426 | 400.00 |
| Kate Willey | Artist ar gyfer Digwyddiad Brenhinol y Rhyl | 1427 | 395.00 |
| Lawnscience | Trin lawnt y Gerddi Coffa | 1428 | 40.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gemma Johnson | Adloniant yn Nigwyddiad Sefydlu'r Maer | 1429 | 250.00 |
| Paul O'Connor (Sol Cinema) | Atyniad ar gyfer Digwyddiad Brenhinol y Rhyl | 1430 | 2,450.00 |
| Design to Print Ltd | Taflenni ar gyfer Digwyddiad Brenhinol y Rhyl | 1431 | 186.00 |
| Design to Print Ltd | Posteri ar gyfer Digwyddiad Brenhinol y Rhyl | 1432 | 87.60 |
| Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | Grant tuag at gostau rhedeg cyffredinol (Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol 1/06/22 yn cyfeirio) | 1433 | 6,000.00 |
| **Cyfanswm Atodlen B** | | | **£15,118.14** |

Gwnaed taliad argyfwng ar gyfer taleb rhif 1417 gan ei fod yn fater brys.

## 18. ADRODDIAD ARCHWILIWR MEWNOL 2021/22

Cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad yr Archwiliwr Mewnol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei ystyried a'i gymeradwyo

Dywedodd yr Aelodau mai opsiwn amgen i GoToMyPC fyddai office364.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad a'i gyfeirio at yr Is-bwyllgor Asesu Risg i'w fonitro.*

## 19. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2021/22

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau gadarnhau'r datganiad (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'w gynnwys yn Natganiadau Cyllid Cyngor Tref y Rhyl 2021/22 ac awdurdodi'r Maer i lofnodi'r ddogfen.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r datganiad a chyfarwyddo'r Maer i'w lofnodi ar ran y Cyngor Tref.*

## 20. DATGANIAD BLYNYDDOL CYNGHORAU LLEOL YNG NGHYMRU 2021/22

Cyfeiriodd Clerc y Dref at y Datganiad Blynyddol (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r aelodau ei gymeradwyo a'i gyflwyno i'r Archwiliwr Allanol, ac am awdurdod i'r Maer ei lofnodi.

Gofynnodd Clerc y Dref i'r aelodau ddatgan unrhyw wrthdrawiad buddiannau posibl sydd ganddynt gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a benodwyd.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r datganiad a chyfarwyddo'r Maer i'w lofnodi ar ran y Cyngor Tref.*

## 21. PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL ANNIBYNNOL CYMRU – LWFANSAU AELODAU 2022/23

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adrodiad ysgrifenedig (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn ymwneud â phenderfyniadau Panel Cydnabyddiaeth Ariannol Cymru a gofyn am benderfyniad ynglŷn â pholisi Cyngor Tref y Rhyl ar gyfer Lwfansau Aelodau 2022/23.

***PENDERFYNWYD***:

(a) *Nodi bod y penderfyniadau mandadol canlynol yn berthnasol i aelodau Cyngor Tref y Rhyl o 9fed Mai 2022:*

***Penderfyniad 43:*** *Costau Gofal*

***Penderfyniad 44:*** *Lwfansau Costau a Threuliau*

***Penderfyniad 52:*** *nodi bod aelodau sy'n derbyn cyflog uwch Band 1 neu Fand 2 (h.y. arweinydd, dirprwy arweinydd neu aelod gweithredol) ond yn cael derbyn treuliau tethio a chynhaliaeth a chyfraniad tuag at gostau gofal a chymorth personol, os ydynt yn gymwys i hawlio ac yn dymuno gwneud hynny.*

*Nodi'r angen i gyhoeddi manylion holl lwfansau a delir i aelodau'r Cyngor.*

(b) *Bod y lwfansau dewisol canlynol yn daladwy i aelodau Cyngor Tref y Rhyl*

***Penderfyniad 45:*** *Costau teithio wrth fynychu dyletswyddau cymeradwy*

***Penderfyniad 46:*** *Treuliau cynhaliaeth wrth fynychu dyletswyddau cymeradwy*

***Penderfyniad 47:*** *lwfans Colled Arinnol wrth fynychu dyletswyddau cymeradwy*

***Penderfyniad 49/50:*** *Lwfans Dinesig i'r Maer/Dirprwy Faer (union lefel y lwfans os caiff ei chymeradwyo i'w chyfeirio i'r Is-bwyllgor Dinesig a Digwyddiadau Cymdeithasol i'w hargymell ar ôl derbyn esboniad mewn perthynas ag ad-dalu cost dillad)*

***Penderfyniad 51:*** *Penderfynu bod nifer y Lwfansau Uwch Aelodau i'w talu gan Gyngor Tref y Rhyl yn 2 – i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor.*

***(c)*** *Nad yw'r lwfansau dewisol canlynol yn cael eu talu i aelodau Cyngor Tref y Rhyl*

***Penderfyniad 48:*** *Lwfans Mynychu ond yn amodol ar arolwg yn y dyfodol)*

***(d)*** *Holl aelodau i gwblhau Atodiadau a-c fel y bo'n briodol*

## 22. PENODI CYNRYCHIOLYDD AR GORFF ALLANOL – BWRDD DATBLYGU CYMUNEDOL Y RHYL

Dywedodd Clerc y Dref bod y Cynghorydd Mrs D L King, yng nghyfarfod y Cyngor Tref ar 20fed Rhagfyr 2021, wedi ei phenodi i gynrychioli'r Cyngor Tref ar y corff uchod. Ail-gadarnhawyd y penodiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 1af Mehefin 2022.

Dywedodd Clerc y Dref ymhellach ei fod wedi ei hysbysu, gan fod y Cynghorydd King nawr hefyd yn Gynghorydd Sir, y byddai'n derbyn gwahoddiad i'r cyfarfodydd yn y swydd honno, a gwahoddodd y Cyngor Tref i enwebu cynrychiolydd arall.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd D. Simmons.*

## 23. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried gweddill yr eitem hon yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

**24. COFNODION YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG**

Cyfeiriodd y Maer at gofnodion cyfrinachol yr Is-bwyllgor Asesu Risg (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin 2022 a gofynnodd am gael cadarnhau'r argymhellion ynddynt.

Diolchodd yr Aelodau i'r Is-bwyllgor Asesu Ris a'r swyddogion am eu gwaith ar y mater hwn ond mynegi eu siom am yr amser a gymerodd i symud ymlaen ar y mater.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r cofnodion a'r argymhellion ynddynt, ac yn benodol:*

*(a) Ar ôl ymweliad gan nifer o aelodau i gyn-adeilad Bee & Station, gwneud cais ffurfiol i Gyngor Sir Ddinbych bod yr adeilad yn cael ei ddynodi fel yr adeilad a ffefrir gan y Cyngor Tref i adleoli iddo ar y telerau a'r amodau a gytunwyd eisoes.*

*(b) Ail-ddynodi adeilad Next Chapter fel ail ddewis yn unig.*

*(c) Dirprwyo cyfrifoldeb i'r Is-bwyllgor Asesu Risg am oruchwylio pob agwedd ar yr adleoliad arfaethedig ar ran y Cyngor gan gynnwys y gofynion i'w bodloni gan y Cyngor Sir i gyflawni ei rwymedigaethau dan y cytundeb rhwng y ddau awdurdod.*

**25. TERFYNU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, bu i'r Cadeirydd ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd: …………………...

Dyddiad: ..20.072022…